

Diogelu Planhigion Addurnol

TAFLEN GWYBODAETH

Rheolaeth Ffermwrol – Mae Atal yn Well Nag Iachâd

Dylai rheoli plâu a chlefydau yn effeithiol bob amser ddechrau gyda rheolyddion ffermwrol, a dylech gynllunio eich holl weithgareddau rheoli cynydau ar y safle gan ystyried rheoli plâu a chlefydau. Gall Trefn Sych fod yn sylfaen gref, a gall helpu i gyfyngu ar effeithiau clefydau dail fel Botrytis ochr yn ochr â chlefydau gwreiddiau fel Pythium a Phytophthora. Wrth gynllunio eich gweithgareddau i gadw'r cnwd mor sych â phosibl, gallech ystyried y canlynol:

- Lleihau cyfnodau o wlybaniaeth dail – cynllunio dyfrhau yn gynnar yn y bore yn hytrach na diwedd y prynhawn i helpu'r cnwd i sychu. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i helpu i atal clefydau dail fel llwydni blewog mewn cynydau sy'n dueddol o gael y clefyd, fel Pedwar-ban-byd.
- Wrth ddyfrhau yn llai aml yn y gaeaf, dylid cyflawni'r dyfrhau yn ôl rhagolygon y tywydd, a dyfrhau ar ddiwrnodau llachar, heulog.
- Mewn cynydau gwarchoddedig, sicrhewch yr awyru mwyaf posibl i gynorthwyo sychu dail a chwythu drwodd i helpu i wasgaru aer llonydd sy'n llaith. Cadwch fentiau a drysau ar agor gymaint â phosibl oni bai bod risg o rew. Ar ddiwrnodau lle mae risg rhew, agorwch y rhain cyn gynted ag y bydd tymheredd yn codi uwchlaw lefel niweidiol i wasgaru aer llaith.
- Mae amrywiaeth o ffaniau ar gael i'w defnyddio mewn twneli, a gall cyflenwyr roi cyngor ar eu lleoli er mwyn osgoi pocedi o aer llonydd. Ystyriwch systemau sy'n cynnwys lleithyddion a fydd yn troi ymlaen os bydd lleithder yn mynd yn uwch na throthwy penodol.
- Mae cynhyrchion gwrth-anwedd fel Anticondens ar gael i'w defnyddio ar wyneb mewnol twneli neu wydr i atal a gwasgaru anwedd i atal diferion rhag cwmpo ar y cnwd – byddwch yn ofalus wrth eu defnyddio, gan fod cynhyrchion tebyg ond gwahanol ar gyfer gwahanol arwynebau e.e. gwydr a polythen.
- Gwnewch yn siŵr bod tanciau dyfrhau wedi'u gorchuddio i gyfyngu ar anweddiad, ond bydd hyn hefyd yn atal dail a ffynonellau eraill o glefydau rhag chwythu i danciau dŵr. Mae gorchuddion hefyd yn atal dail ac algâu rhag cronni yn y tanc.

Gall **Rheolaeth Chwyn** hefyd fod yn bwysig, o ran rheoli lleithder mewn cynydau, yn ogystal â chael gwared ar gronfeydd o blâu a chlefydau. Dylech geisio atal chwyn rhag gosod hadau er mwyn cyfyngu ar eu hymlediad. Mae chwynnu â llaw yn wythnosol ar gylchdro gofalus wedi profi i fod yn fwy effeithiol o ran llafur na dull achlysurol llawdrwm, ac mae'n llawer mwy tebygol o atal chwyn rhag ymsefydlu.

Bioamddiffynwyr

Mae bioamddiffynwyr (a elwid gynt yn bioblaladdwyr) yn wahanol i reolyddion biolegol, fel pryfed rheibus y gallwch eu rhyddhau i'ch cnwd. Mae'r rhain fel arfer yn gyfyngau microbaidd sy'n cael eu chwistrellu ar wyneb y ddeilen ac yn gweithredu i frwydro yn erbyn pathogenau planhigion trwy gystadlu'n well neu atal eu tyfiant, fel bwydo ar archwys deilen. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid eu rhoi yn ofalus ar y cnwd cyn unrhyw broblemau fel y gallant gael eu



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



GARDDWRIAETH
HORTICULTURE

sefydlu.

Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cael eu chwistrellu ar y dail gydag offer chwistrellu confensiynol. Fodd bynnag, mae'n well cael chwistrellwr pwrpasol, ar wahân ar gyfer bioamddiffynwyr oherwydd gall fod yn anodd glanhau tanciau cemegol yn llwyr er mwyn atal trosglwyddiad a all effeithio'n andwyol ar y bioamddiffynwyr. Ar gyfer busnesau llai lle nad yw chwistrellwr ar wahân yn ymarferol, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio glanhawr tanc trwy chwistrellwyr i leihau gweddillion gymaint â phosibl a glanhau tanciau chwistrellu rhwng gwahanol gynhyrchion.

Pan fydd sborau'n cael eu rhoi dros y cnwd, byddant ynghwsg, ac felly efallai y bydd angen eu trin a'u storio'n ofalus cyn eu chwistrellu. Er enghraifft, bydd angen storio Prestop, y gellir ei ddefnyddio fel chwistrell ar ddail er mwyn rheoli Botrytis neu ei roi'n uniongyrchol i'r gwreiddiau ar gyfer Phytophthora neu Pythium o dan 4°C – yn ddelfrydol mewn oergell bwrpasol lle mae'r tymheredd yn cael ei gofnodi. Ar gyfer pecynnau a ddefnyddir yn rhannol, dylid eu cadw mewn cynhwysydd aerdyn i atal diraddio a defnyddiwrch becynnau sychu os yn bosibl. Bydd gan fioamddiffynwyr dymheredd cytrefu lleiaf neu orau y dylid eu hystyried wrth gynllunio eu defnyddio – er enghraifft, gall Serenade ASO (y gellir ei ddefnyddio o dan EAMU) fod yn weithredol o dan 15°C, ond bydd yn fwyaf gweithredol rhwng 25°C a 35°C.



Gellir rheoli larfa'r gwiddonyn gwinwydd yn effeithiol trwy ddefnyddio nematodau

Gall rheibwyr a bioamddiffynwyr rheolaeth biolegol barhau i weithio yn yr amgylchedd manwerthu i leihau gwastraff ar ôl gwerthiant. Bydd y dulliau hyn yn mynd i'r afael â phryderon cwsmeriaid ynghylch defnyddio plaladdwyr a gweddillion, a byddant hefyd yn ddiogel i chi a'ch staff.

Rheolaeth Gofensiynol

Lle nad yw rheolyddion eraill yn ddigonol (neu nad ydynt ar gael), efallai mai toddiannau cemegol yw'r dewis arall gorau. Mae chwistrellwyr bwm yn darparu'r gorchudd chwistrell gorau, ac felly ceir y canlyniadau gorau os gallwch chi roi'r cynhyrchion yn y modd hwn, hyd yn oed os ydych chi'n defnyddio bwm bach a ddefnyddir â llaw. Mae rhai tyfwyr wedi datblygu systemau arloesol, fel picelli gyda sawl ffoenell i efelychu hyn ar raddfa fach. Gall pistolau chwistrellu Reaper arwain at daenu anwastad gyda darnau wedi'i chwistrellu'n annigonol neu'n ormodol yn arwain at reolaeth afreolaidd neu effeithiau o dyfiant rheoleiddiol anwastad. Dylid ffoenellau chwistrell hefyd gael eu graddnodi'n ofalus. Gall ffoenell ffan fflat ar 110° fod yn ddewis cyffredinol da (dylai'r ffoenellau chwistrellu hyn fod 50 cm yn uwch na'r targed chwistrellu), ond bydd gweithgynhyrchwyr yn rhoi dosbarthiad ffoenell BCPC (mân/canolog/bras) ar gyfer eu ffoenellau chwistrell. Bydd ffoenellau mân yn rhoi defnyddiau llai, ond maent yn fwy tebygol o arwain at ddrifftio. Mae'n well defnyddio ffwngladdwyr a phryfladdwyr gyda ffoenell sy'n darparu ansawdd chwistrell canolog, ond dylid defnyddio chwynladdwyr gyda ffoenell bras i leihau drifftio. Defnyddir cynhyrchion yn gyffredinol mewn gwanhad o 200 - 400 L/Ha o ddŵr, ond gwiriwch labeli ac EAMUs ar gyfer gofynion penodol.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Opsiynau Rheoli Cynllunio

Gellir defnyddio rheolyddion ffermwrol drwy gydol y flwyddyn a dylent fod yn fan cychwyn ar gyfer unrhyw benderfyniadau ar reoli cnydau. Er enghraifft, gellir lliniaru pydredd gwreiddiau pythium mewn conwydd yn sylweddol trwy gadw'r cnwd ar yr ochr sych. Edrychwch am symptomau yn eich cnydau a thynnwch y planhigion yr effeithir arnynt yn brydlon er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo sborau a gludir gan ddŵr. Os byddwch chi'n dal y clefyd yn gynnar, gall fod yn ddull gwell o greu amodau ffafriol ar gyfer y cnwd yn hytrach na'r pathogen – sychwch y cnwd yn ôl, a thynnu planhigion heintiedig, ac atal trosglwyddiad – ac efallai y byddwch chi'n osgoi'r angen i roi ffwngladdwr ar y gwreiddiau. Byddrheolaeth effeithiol hefyd yn lleihau'r angen am fewnbynnau ychwanegol, felly gall lleihau pwysau clefydau fod o fudd ehangach.



Symptomau Phytophthora mewn Conwydd

Gellir defnyddio bioamddiffynwyr (gan gynnwys rheolyddion biolegol) rhwng mis Ebrill a mis Hydref ar gyfer y rhan fwyaf o broblemau, ond byddwch yn wylidwrus am unrhyw ofynion tymheredd. Yn yr un modd, ceisiwch baru rheibwyr biolegol ag amodau. Er enghraifft, bydd rheibwyr llyslau yn anweithredol ar dymheredd isel a byddant yn fwyaf effeithiol tua 16 - 20°C. Mae rheibwyr sy'n hedfan a gyflwynir yn annhebygol o fod yn effeithiol y tu allan, ond gall rheolaeth â gwiddon rheibus fod yn ddefnyddiol ar ôl i chi ddysgu gweithio gyda'r amodau. Ystyriwch opsiynau rheoli confensiynol pan fydd pwysau plâu neu glefyd yn fawr, ac mae angen lefel o reolaeth nad yw ar gael gyda dulliau biolegol, yn enwedig pan fydd amodau'n ffafriol ar gyfer datblygiad cyflym.

Defnyddiwch reolyddion ffermwrol – mae atal yn well nag iachâd, arbed costau, llafur a mewnbynnau cnydau, lleihau pwysau clefyd ac atal problemau fel ymwrthedd i ffwngladdwyr rhag datblygu. Mae cadw opsiynau rheoli cemegol pan fydd eu gwir angen yn gallu helpu i leihau'r risg o ddatblygu ymwrthedd – gwnewch yn siŵr eich bod bob amser yn defnyddio cyfuniad o godau FRAC wrth gynllunio eich amserlen reoli – gall eich agronomydd eich helpu i ddatblygu rhaglen addas. Gall rheolyddion confensiynol hefyd fod yn ddefnyddiol wrth lanhau ar ddiwedd y tymor, neu fel arf i ddelio ag achosion er mwyn caniatáu i opsiynau rheoli biolegol ailymsefydlu.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r argymhellion yn y nodiadau hyn yn gywir. Bob tro y byddwch yn defnyddio cemegion diogelu cnydau, dylech wneud hynny yn unol â'r argymhellion sydd wedi'u nodi ar y label, a dylech ddarllen yr argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion label ar gyfer eu defnyddio ar gnydau ond fe'u caniateir trwy Estyniad Awdurdodi ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan 'Y Trefniadau Tymor Hir Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002)'. Yn yr achosion hyn, mae defnyddio'r plaladdwr yn cael ei wneud yn ôl risg y defnyddiwr. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr mewn cnydau ac yn gywir ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan gynghorydd â chymwysterau BASIS.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO





Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



GARDDWRIAETH
HORTICULTURE